# CROESO I GYLCHLYTHYR CARFAN DATBLYGU'R GYMUNED - RHCT GYDA'N GILYDD

RHIFYN:
EBRILL 2024 – MAWRTH 2025




[Rhondda Cynon Taf Gyda'n Gilydd - Helpu Cymunedau a Thrigolion i Ffynnu]

**Cynnwys:**

Y Diweddaraf – tudalen 2

Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned, Rhwydweithiau Cymdogaeth a Chymorth i Drigolion - tudalen 3

Trosglwyddo Asedau Cymunedol - tudalen 4

Cyllid ac Adnoddau - tudalen 5

Cymunedau sy’n Oed Gyfeillgar - tudalen 6

Prosiect Lleoedd Bwyd Cynaliadwy - tudalen 7

Manylion cyswllt - tudalen 8

# RhCT GYDA'N GILYDD

HELPU CYMUNEDAU A THRIGOLION I FFYNNU



Bwriwch olwg ar dudalen "Y Diweddaraf" i weld rhagor o wybodaeth am yr holl bethau newydd sydd ar y gweill ar gyfer **2025-2026**

Y Diweddaraf - RhCT Gyda'n Gilydd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)

**Ymgynghoriad Strategaeth Bwyd Cynaliadwy RhCT**

Hoffen ni glywed eich barn CHI er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn cyfleu barn cynifer o bobl â phosibl yn RhCT - cymerwch ran a dweud EICH dweud!

**Cynllun Toiledau Cymunedol Rhondda Cynon Taf**

Mae'n bleser gyda ni gyhoeddi lansiad y cynllun sy'n ceisio datblygu map rhyngweithiol newydd

**Cynllun Toiledau Cymunedol**

Os ydych chi'n gwybod am grŵp cymunedol a hoffai gael ei gynnwys – cysylltwch â ni – rhctgydangilydd@rctcbc.gov.uk

Toiled Toilet

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

RHONDDA CYNON TAF

BALCH O'R MISLIF | PERIOD PROUD
#BalchOrMislif
llyw.cymru/balchormislif
#PeriodProudWales
gov.wales/periodproud

Dementia Friends
An Alzheimer's Society initiative

Oed-Gyfeillgar
Age-Friendly
Rhondda Cynon Taf

SUSTAINABLE FOOD places
RCT BRONZE

SUSTAINABLE FOOD places

Croeso Welcome

Funded by UK Government

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned, Rhwydweithiau Cymdogaeth a Chymorth i Drigolion.

## Rhwydweithiau Cymdogaeth

Cafodd **66** o Rwydweithiau Cymdogaeth eu cynnal eleni a chawson nhw eu mynychu gan **587** o bartneriaid o'r sector gwirfoddol a phartneriaid trydydd parti.

## Cymorth i Drigolion

Derbyniwyd **1879** o geisiadau am wybodaeth neu gymorth.

Manteisiodd **1379** o drigolion newydd ar y gwasanaeth.

Cafodd **392** o Dalebau Archfarchnad eu darparu.

Cafodd **67** o Dalebau Tanwydd eu darparu.

Doeddwn i ddim yn gwybod ble i droi, mae sgwrsio â chi heddiw wedi helpu ac wedi bod yn gymorth enfawr

Doeddwn i ddim yn gwybod am yr holl wasanaethau sydd ar gael, ac roedd ein sgwrs yn ddefnyddiol iawn

Gwnaethoch chi fy nghyfeirio at gyfleuster cymunedol. Rydw i bellach yn mynychu'n rheolaidd, a phe na bawn i'n mynychu, byddwn i'n sownd yn y tŷ ar fy mhen fy hun a fyddwn i ddim yn gweld nac yn siarad ag unrhyw un. Mae'n wych dod mas a chwrdd â phobl.

Os oes angen cymorth neu wybodaeth arnoch chi, cwblhewch y ffurflen ar-lein - Cymorth i Drigolion

RhCT GYDA'N GILYDD

HELPU CYMUNEDAU A THRIGOLION I FFYNNU



# Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Yn ystod y cyfnod yma:

- Derbyniodd y garfan **93** ymholiad am gymorth cyffredinol
- Cefnogodd y garfan **82** sefydliad, gyda chyfanswm o **102** cyfarfod neu gysylltiadau wedi'u creu (cefnogwyd **159** sefydliad yn ystod y flwyddyn)

Mae'r Cyngor wedi trosglwyddo'r Asedau canlynol i sefydliadau cymunedol eleni:
Achosion Llwyddiannus o Drosglwyddo Asedau Cymunedol

- Canolfan Cymuned Rhodfa Cambrian, Gilfach Goch (Cyngor Cymuned Gilfach Goch)
- Canolfan Cymuned Perthcelyn - ASD Rainbows
- Canolfan Cymuned Bryn-cae - Cyngor Cymuned Llanharan
- Canolfan Gymdeithasol Glan-yr-afon - Banc Bwyd Pontypridd
- Canolfan Gelf y Miwni - Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen
- Pwll Padlo Treorci - Ffrindiau Parc Treorci
- Canolfan Cymuned Y Graig Cyngor Tref Pontypridd
- Canolfan Addysg y Gymuned Treherbert Croeso i'n Coedwig (Tenantiaeth yn ôl ewyllys)

## Diwrnod Hwyl Dydd Llun Llwm Tonyrefail

Yn rhan o'n gwaith parhaus gydag Interlink RhCT, Cymdeithasau Tai lleol, Siambr Fasnach Tonyrefail ac Ysgol Gymuned Tonyrefail, cafodd grwpiau cymunedol lleol gyfle i wneud cais am gyllid.

Cyflwynodd **9 grŵp cymunedol** gais a derbynion nhw cyllid grant gwerth cyfanswm o oddeutu £9000.

Cadwch lygad allan am yr achlysur dathlu sy'n cael ei gynnal yn yr Haf er mwyn cydnabod holl waith caled ac ymroddiad y grwpiau a'r sefydliadau cymunedol yma.

## Sesiwn Cymorth Cyllid

Cynhaliodd y garfan sesiynau cymuned ynghylch **Grant Cymunedol RCTCBC Cronfa Ffyniant a Rennir Llywodraeth y DU** gyda chefnogaeth Interlink RhCT, a fynychwyd gan 100 o unigolion sy'n cynrychioli sefydliadau cymunedol.

Hefyd, darparodd y garfan sesiynau cymorth ariannol penodol ar gyfer sefydliadau TAC gyda 4 grŵp yn mynychu.

Yn ystod y flwyddyn hon, gyda chefnogaeth gan y Garfan TAC, mae sefydliadau cymunedol wedi sicrhau cyllid grant gwerth cyfanswm o: **£345,447**.





# CYLLID AC ADNODDAU

Mae Carfan Datblygu'r Gymuned yn rheoli **9 Grant Cymunedol**:

- Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU – Grant Cymunedol CBSRhCT
- Grant Lluosi Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU
- Grant Urddas Mislif yn y Gymuned Llywodraeth Cymru
- Cronfa Gymunedol Seibiannau Byr i Gynhalwyr (Gofalwyr) Di-dâl
- Cronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol
- Cronfa Rhwydweithiau Cymdogaeth
- Cronfa Cymorth Bwyd Rhondda Cynon Taf
- Cronfa Atal Dementia
- Cronfa Caledi'r Gaeaf

Cyfanswm y dyfarniadau a roddwyd i grwpiau cymunedol oedd **641**

Cyfanswm y cyllid a gafodd ei ddyfarnu i grwpiau cymunedol oedd **£3,542,689.00**

Roeddwn i eisiau cymryd amser i ddiolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth a'ch cymorth i gael mynediad at y cyllid yma.

Fyddai sicrhau'r cyllid yma ddim wedi bod yn bosibl heb eich cyngor a'ch cymorth cyson, rydyn ni'n hynod ddiolchgar ac yn gwerthfawrogi'ch holl waith caled.





# Cymunedau Oed-gyfeillgar

Oed-Gyfeillgar
Age-Friendly
Rhondda Cynon Taf

Yn rhan o'n gwaith gyda chydweithwyr o'r **Garfan Nyrsio Eiddilwch** yng Nghlwstwr Meddygon Teulu Taf-elái, cynhaliwyd nifer o sesiynau allgymorth ar gyfer grwpiau lleol ac mewn cynlluniau llety lleol. Mae'r sesiynau yma wedi cael croeso cynnes gan drigolion hŷn sy'n elwa o'r dull rhagweithiol yma. Yn ystod y sesiynau caiff nifer o bryderon gofal iechyd eu nodi a'u datrys, gan atal dirywiad posibl a sicrhau bod modd rhoi cymorth cynnar ar waith.





Yn dilyn llwyddiant **Men's Shed Pontypridd** a enillodd Partneriaeth y Flwyddyn yng Ngwobrau Men's Shed yn ddiweddar. Fe wnaethon ni dreulio amser gydag aelodau'r 'Shed' i glywed a recordio'u straeon. Mae gwaith bellach yn mynd rhagddo i ddatblygu cynnwys fideo a fydd yn dangos y cymorth pwysig y mae'r 'Shed' yn ei ddarparu i ddynion lleol yn ardal Pontypridd.





# Lleoedd Bwyd Cynaliadwy

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn falch o gyflwyno Strategaeth Bwyd Cynaliadwy gyntaf RhCT: Taith Bwyd 2025-2030. Hoffen ni glywed eich barn er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn cyfleu barn cynifer o bobl â phosibl yn RhCT.

Gweledigaeth Taith Bwyd yw sicrhau bod modd i bob person yn RhCT gael mynediad at fwyd maethlon, fforddiadwy a chynaliadwy.

Mae'r strategaeth yn adeiladu ar waith Partneriaeth Bwyd RhCT sydd wedi ennill gwobrau dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan ddod â sefydliadau trydydd sector, cyrff cyhoeddus, busnesau ac unigolion ynghyd i rannu brwdfrydedd dros fwyd lleol o ansawdd da a chreu economi fwyd ffyniannus yn RhCT sydd hefyd yn helpu'r blaned.

Mae Strategaeth Bwyd Cynaliadwy Rhondda Cynon Taf: Taith Bwyd 2025-2030 yn nodi'r meysydd ffocws y mae angen i Bartneriaeth Bwyd RhCT weithio arnyn nhw dros y 5 mlynedd nesaf. **Cliciwch YMA** i weld yr ymgynghoriad, sy'n cau ar 6 Mai 2025.







# Cofiwch – mae modd i chi gysylltu ag unrhyw aelod o'r garfan☺

**<u>Cysylltwch â'r garfan</u>**

**Carfan Trosglwyddo Asedau Cymunedol**

**<u>Cysylltwch â'r garfan</u>**

**Carfan Canolfan Cydnerthedd y Gymuned a'r Rhwydweithiau Cymdogaeth**

**<u>Cysylltwch â'r garfan</u>**

**Carfan Cymorth Cyllid ac Adnoddau**

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU